LEG-25-2000 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 7 Tachwedd 2000
**Amser:** 9.30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Presennol** | |
| Nick Bourne, Cadeirydd Gweithredol | (Ceidwadwyr) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Lynne Neagle | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |
| **Swyddogion** | |
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Karen Sinclair

**Penodi Cadeirydd Dros Dro**
Dywedodd y Clerc nad oedd Dr Dai Lloyd yn teimlo y gallai barhau fel Cadeirydd Dros Dro ac felly gwahoddodd enwebiadau. Enwebwyd yr Athro Nick Bourne a chymerodd y Gadeiryddiaeth.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi: LEG-25-2000 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2000.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau iddynt gytuno yn y cyfarfod diwethaf y dylai’r Pwyllgor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i holi ynghylch y sefyllfa gyfreithiol yn ymwneud â’r defnydd o’r term "Gweinidog y Cynulliad" pan mai’r term "Ysgrifennydd y Cynulliad" a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru ac yn y Rheolau Sefydlog. Arhosir am ymateb.

**LC121: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Dechreuad) (Cymru) 2000**
2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau hefyd iddynt gytuno yn y cyfarfod diwethaf i ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd ynghylch camgymeriad trefniadol a ddigwyddodd mewn perthynas â'r gorchymyn uchod. Cytunodd y Pwyllgor i'w wneud yn amod o'i adroddiad y dylid diwygio camgymeriadau drafftio y gellir adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5 drwy gyfrwng y defnydd o Femorandwm Cywiriadau. Roedd angen i'r Weithrediaeth gyflwyno'r Memorandwm Cywiriadau gerbron y Cyfarfod Llawn ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor a'r Gorchymyn. Ni wnaed hynny er y gosodwyd y gorchymyn drafft ac adroddiad y Pwyllgor, yn cynnwys cyfeiriad at y Memorandwm Cywiriadau. Canlyniad hyn oedd bod y Cynulliad wedi penderfynu llunio darn diffygiol o ddeddfwriaeth y bu'n rhaid ei gywiro mewn cyfarfod llawn. Arhosir am ymateb i lythyr y Pwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC132- Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw seiliau a bennwyd gan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor i gynnig sylw yn yr adroddiad ar y defnydd o'r diffiniad "plant perthnasol". Teimlwyd y gallai'r derminoleg a ddefnyddiwyd awgrymu bod rhai plant yn cael eu heithrio. Er nad oedd hwn yn gamgymeriad drafftio, teimlai'r Pwyllgor fod y gair "perthnasol" yn anaddas.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC132 (Adroddiad).

**LC133 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2000**
3.3 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r pwyllgor.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw seiliau a bennwyd gan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, cynigiodd y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol y manylir arnynt yn yr adroddiad.

3.5 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC133 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Tachwedd 2000 pan fydd pum darn o ddeddfwriaeth i'w hystyried.

**Adroddiadau a Atodir**

- **LC132**

- **LC133**